**Lesley Griffiths AC/AM**
**Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**
**Minister for Environment, Energy and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AC
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

13 Chwefror 2019

Annwyl Mike,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 27 Tachwedd 2018 ynghylch y dull o weithredu seiliedig ar ganlyniadau mewn perthynas â'r cynllun nwyddau cyhoeddus, fel y nodir yn yr ymgynghoriad 'Brexit a'n tir'. Rwyf wedi mynd i'r afael â chwestiynau'r Pwyllgor fwy neu lai yn y drefn y cawsant eu codi, ac mewn rhai achosion rwyf wedi grwpio atebion pan fydd hynny'n helpu i esbonio fy safbwynt yn gliriach.

Mae rhai o gwestiynau'r Pwyllgor yn gorgyffwrdd ag argymhellion a wnaed yn adroddiad cynhwysfawr y Pwyllgor ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol (LCM) mewn perthynas â Bil Amaethyddiaeth y DU. Rwyf yn croesawu'r cyfle i archwilio'r pwyntiau a godwyd; fodd bynnag, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid ymateb llawn i argymhellion yr adroddiad yw hwn. Mae'n bwysig nodi hefyd bod yr ymatebion i ymgynghoriad 'Brexit a'n tir' yn dal i gael eu dadansoddi. Felly, mewn llawer o achosion, mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar benderfyniadau polisi gan y bydd y rhain yn dibynnu ar ganlyniad yr ymgynghoriad a'r holl ystyriaethau perthnasol eraill.

Gan roi hyn mewn cyd-destun, sefydlodd ymgynghoriad 'Brexit a'n tir' gynigion polisi lefel uchel. Cafodd y dull hwn o weithredu ei gynllunio'n bwrpasol i ysgogi trafodaeth sy'n ymgysylltu ac sy'n wybodus ar gynigion am gyfeiriad cyffredinol ar gyfer cynlluniau'r dyfodol, yn hytrach na chyflwyno fait accompli. Bydd canlyniadau'r ymgynghoriad yn ein galluogi i ddatblygu rhagor o fanylion ar gyfer Papur Gwyn yr ydym yn bwriadu ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghori cyn Sioe Frenhinol Cymru. Mae'r rhain yn faterion pwysig na ddylid eu rhuthro. Bydd y cyfnod rhwng heddiw a'r cyfnod hwnnw yn cael ei ddefnyddio i wneud rhagor o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau y gellir paratoi dadansoddiad priodol.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## Modelu a chynlluniau peilot

Fel y nodwyd uchod, roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys cynigion polisi lefel uchel. Ochr yn ochr â'r cynigion hyn, fe wnaethom ni gyhoeddi dadansoddiad manwl ar wahanol senarios Brexit. Roedd yn bwysig ymgymryd â'r gwaith modelu hwn er mwyn deall effaith bosibl senarios masnach amgen ar y sector amaethyddol. Ni fyddai wedi bod yn briodol llunio dadansoddiad ar effaith polisi yn y dyfodol bryd hynny, oherwydd gall cynigion polisi newid wrth i ganlyniadau'r ymgynghoriad ddod yn amlwg. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae'n bwysig ein bod ni’n cael hyn yn iawn ac nad ydym yn barnu canlyniad y dadansoddiad hwn ymlaen llaw.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, rwyf am sicrhau’r Pwyllgor y bydd swyddogion yn ymgymryd â'r gwaith modelu ac asesu effaith angenrheidiol er mwyn cefnogi’r gwaith o ddatblygu cynigion manylach. Bydd y gwaith datblygu polisi yn destun Asesiad Effaith Integredig (IIA) Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys ystyried yr effaith debygol ar gymunedau gwledig yn fanwl, a bydd yn cael ei ddiweddaru’n rheolaidd wrth i’r polisi ddatblygu.

Mae'n bwysig nodi na fyddwn yn dechrau ar dudalen wag o ran dylunio cynlluniau newydd. Mae gennym dros 20 mlynedd o brofiad yn cyflawni’r cynllun amaeth-amgylchedd i ddysgu ohono. Er enghraifft, mae Rhaglen Monitro a Gwerthuso Glastir (GMEP) yn rhoi gwersi i ni ar lwyddiant neu fel arall yr ymyriadau rheoli tir blaenorol yn ogystal â data a fydd yn ein helpu i asesu effeithiau amgylcheddol posibl y cynlluniau arfaethedig. Mae cyfle hefyd i ddysgu gwersi o gynlluniau y tu allan i Gymru. Bydd yr wybodaeth hon yn cyfrannu at ddyluniad ein cynllun er mwyn helpu i sicrhau bod y cynlluniau'n addas i'r diben.

Rhaid i ni sicrhau bod cynlluniau'r dyfodol yn gweithio i bob ffermwr yng Nghymru. Y cwestiwn dan sylw yw beth yw’r ffordd orau o gyflawni hyn. Mae'n amlwg bod potensial i brosiectau peilot chwarae rhan bwysig. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i benderfynu a fydd treialu yn ffordd briodol o brofi pob agwedd ar y cynlluniau. Gall y data sydd ar gael gan GMEP, ynghyd â thystiolaeth wyddonol ehangach, olygu na fydd angen i ni o reidrwydd dreialu pob agwedd ar arferion rheoli tir hirdymor er mwyn canfod beth fydd yn gweithio'n llwyddiannus. Os byddwn yn parhau yn unol â’r hyn sydd wedi’i gynnig yn yr ymgynghoriad, byddwn yn ystyried rôl cynlluniau peilot yn llawn wrth i ni ddatblygu cam nesaf y cynigion polisi.

## Ymgysylltu â ffermwyr

Mae ein cynigion polisi wedi elwa o fewnbwn sylweddol gan randdeiliaid. Rydym eisoes wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid yn helaeth drwy ein rhaglen ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa fawr, sydd wedi cysylltu â mwy na 1,000 o ffermwyr. Os byddwn yn bwrw ymlaen yn unol â’r hyn sydd wedi’i gynnig, byddwn yn parhau i ymgysylltu â ffermwyr a rheolwyr tir eraill er mwyn cael deall sut y gallwn ni eu cynorthwyo i addasu’n llwyddiannus i gynllun seiliedig ar ganlyniadau. Gallai hyn gynnwys grwpiau ffocws gyda ffermwyr o wahanol fathau o ffermydd ac ardaloedd daearyddol er mwyn penderfynu sut y gellir eu helpu i addasu i ddulliau gweithredu newydd. Er enghraifft, profi’r ffordd orau o gyfleu manteision mabwysiadu technoleg newydd neu sut orau i fonitro canlyniadau rheoli tir.

## Hygyrchedd cynlluniau

Fel sy'n briodol, dywedodd y Pwyllgor fod angen sicrhau bod cynlluniau arfaethedig ar gael ar draws sectorau amaethyddol ac ardaloedd daearyddol. Fel y nodwyd yn y ddogfen ymgynghori, un o'r pum egwyddor a gynigir ar gyfer diwygio'r broses o reoli tir yw rhoi cyfle i bob ffermwr a rheolwr tir arall gael mynediad at gynlluniau newydd petaent yn dymuno. Unwaith y bydd gennym syniad clir o baramedrau'r cynllun ar ôl ymgynghori, byddwn yn gwneud yn siŵr bod gennym y gallu a'r defnydd o offer priodol i ddadansoddi polisi ar draws ardaloedd daearyddol ac felly byddwn yn gallu sicrhau bod cynlluniau arfaethedig ar gael i ffermydd o wahanol fathau a lleoliadau. Gall y gwaith mae Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ei wneud i ddatblygu Datganiadau Ardal hefyd helpu i lywio'r broses o wneud penderfyniadau gofodol.

## Diffinio a monitro canlyniadau

Mae talu am ganlyniadau yn hytrach na mewnbwn yn agwedd sylfaenol ar y cynigion hyn – mae hyn yn adlewyrchu dymuniad Llywodraeth Cymru i gyflwyno ymdeimlad cryf o "rywbeth am rywbeth" yn y cynlluniau newydd. Os yw am lwyddo, mae'n rhaid i gynllun taliadau seiliedig ar ganlyniadau fodloni nifer o feini prawf.

Er mwyn cyflawni'r targedau amgylcheddol, rhaid i'r canlyniadau a geisiwn fod yn bendant a theg. Dylid cysylltu'r cyllid â'r canlyniad(au) penodol dan sylw, felly mae'n rhaid cael tystiolaeth o gysylltiad achosol rhwng y camau y mae ffermwr yn eu cymryd a chyflawni'r canlyniad. Yn sgil hynny, mae'n rhaid esbonio'n ddigonol y dewis o ran camau y gall y ffermwr ddewis eu cymryd. Mae'n bwysig cydnabod bod llawer o bwysau amgylcheddol na all y ffermwr eu rheoli, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y canlyniadau a ddiffiniwyd.

Efallai na fydd yn bosibl bob amser mesur y deilliannau hyn yn uniongyrchol, felly mewn rhai achosion efallai y bydd angen mesur procsi sy'n briodol gadarn. Rhaid dod o hyd i ffordd bragmataidd ac effeithlon yn weithredol o fesur y canlyniadau a'r canlyniadau procsi hyn, fel bod Llywodraeth Cymru a'r ffermwr yn gallu rheoli eu cynnydd tuag at gyflawni'r canlyniadau.

Bydd yr ymgynghoriad nesaf yn edrych yn fanwl ar y modd y gellir diffinio, mesur a monitro pob canlyniad. Mae achos da dros ddefnyddio grwpiau ffocws â ffermwyr i brofi sut rydym ni'n cyfleu'r agweddau hyn, yn enwedig o ystyried y lefelau dealltwriaeth amrywiol sy'n bodoli ledled y diwydiant. Bydd hyn yn ein galluogi i ddiffinio canlyniadau a disgrifio prosesau sy'n hawdd i ffermwyr eu deall.

Er mwyn rhoi enghraifft esboniadol: wrth gyflawni canlyniad ansawdd dŵr gwell, byddai'n anodd profi cwrs dŵr a phriodoli materion yn ymwneud ag ansawdd i fferm benodol o fewn dalgylch dŵr. Fodd bynnag, bydd samplu pridd ar bob fferm yn pennu a oes maethynnau gormodol sydd mewn perygl o drwytholchi o'r pridd, a fyddai'n niweidiol i ansawdd dŵr. Byddai'n ymarferol gosod paramedrau maethynnau pridd ar gyfer y tir dan sylw, ac i ffermwyr brofi'r pridd eu hunain er mwyn monitro eu cynnydd tuag at gwrdd â'r paramedrau hynny. Mae hyn o fewn set sgiliau llawer o bobl. Gyda'r offer a'r canllawiau priodol, byddai'r ffermwr yn gallu deall y canlyniad i'w gyflawni ac yn gallu parhau i fonitro tuag at gyflawni'r canlyniad.

Yn yr ymgynghoriad 'Brexit a'n tir', fe wnaethom ni ymgynghori'n benodol ar ofynion hyfforddi a chynghori ffermwyr er mwyn cyflawni nwyddau cyhoeddus yn llwyddiannus. Mae'r atebion i'r cwestiwn hwn yn destun dadansoddiad parhaus. Fodd bynnag, rwyf am sicrhau'r Pwyllgor yr archwilir y mater hwn hefyd yn fanylach gyda'r cam nesaf o gynigion manwl.

Mae gennym amcanion cymdeithasol ac economaidd i'w cyflawni yn ogystal ag amcanion amgylcheddol, felly mae'n rhaid i ffermwr allu derbyn ffrwd incwm ystyrlon a sefydlog yn gyfnewid am gyflawni nwyddau cyhoeddus. Bydd hyn yn arbennig o bwysig i'r rhai lle mae'r taliadau hyn yn rhan sylweddol o incwm net busnes y fferm.

Gall gymryd rhai blynyddoedd i gyflawni rhai o'r canlyniadau a geisiwn. Fodd bynnag, os yw ffermwr yn ymgymryd â digon o fesurau i gyflawni canlyniad, dylai ddisgwyl cael ei dalu amdano. Felly, awgrymir na ddylai fod yn angenrheidiol cael cynllun hybrid, oherwydd dylai'r ffermwr gael sicrwydd incwm hirdymor o'r cychwyn. Wrth gyflawni hyn, byddwn yn cyflawni amcanion cynllun hybrid drwy un cynllun hyblyg. Wrth gwrs, bydd dadansoddiad priodol yn hanfodol er mwyn sicrhau ein bod yn cael hyn yn iawn.

**<u>Rheoleiddio</u>**

Rwyf wedi dweud yn barod fy mod i'n bwriadu y bydd rheoliadau gwella ansawdd dŵr ar waith ym mis Ionawr 2020. Nid oes bwriad i wneud unrhyw gyhoeddiadau pellach ar hyn o bryd. Ar ôl dadansoddi'r ymgynghoriad, darperir rhagor o wybodaeth fel rhan o waith datblygu ein cynigion polisi manwl.

**<u>Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth</u>**

Mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth ar y gwaith a wnaed i sicrhau bod modd cyflawni'r cynlluniau arfaethedig yn llwyddiannus yn unol â rheolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO). Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi meithrin dealltwriaeth ragorol o Gytundeb ar Amaethyddiaeth WTO, sy'n nodi'r rheolau ar gyfer cydymffurfio â WTO, a byddwn yn defnyddio'r ddealltwriaeth hon wrth i ni ddatblygu cynlluniau newydd i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae swyddogion yn cydweithio'n rheolaidd â Llywodraeth y DU, a'r bwriad yw parhau i wneud hynny wrth i'n cynigion ddatblygu. Fel rhan o hyn, mae swyddogion yn parhau i gydweithio â phartïon perthnasol er mwyn darparu cyngor priodol. Felly, rwyf yn gwbl hyderus y bydd y cynlluniau newydd yn cydymffurfio â rheolau WTO.

Llywodraeth y DU fydd yn gyfrifol am hysbysu'r WTO ynghylch dosbarthiad cynlluniau amaethyddiaeth y DU. Fodd bynnag, y ffordd y mae cynllun yn cael ei ddylunio, yng nghyd-destun meini prawf y Cytundeb ar Amaethyddiaeth, fydd yn pennu sut mae cynlluniau'n cael eu dosbarthu. Mae'n gwbl allweddol sicrhau bod dulliau cadarn yn eu lle a fydd yn galluogi Gweinidogion Cymru i leisio eu barn wrth gymeradwyo'r dosbarthiad priodol o gynlluniau ac ynghylch materion eraill perthnasol gyda Llywodraeth y DU. Mae swyddogion wrthi'n cynnal trafodaethau positif â Llywodraeth y DU ynghylch cytundeb a fyddai'n llywodraethu'r defnydd o bwerau'r Ysgrifennydd Gwladol ym Mil Amaethyddiaeth y DU o safbwynt cydymffurfiaeth y DU â'r Cytundeb WTO ynghylch Amaethyddiaeth. Bydd hyn yn sicrhau ymgysylltu priodol gyda Gweinidogion Cymru a hefyd yn sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried. Byddaf yn gwneud cyhoeddiad arall ynghylch y Cytundeb WTO ar Amaethyddiaeth.

## Gweithredu

Hoffwn ailadrodd y tri ymrwymiad a wnes i yn ystod yr hydref y llynedd – ni fydd unrhyw benderfyniadau yn cael eu gwneud ar gynlluniau'r dyfodol nes byddwn wedi adolygu'r holl ymatebion i'r ymgynghoriad; ni fydd y taliadau presennol yn cael eu newid heb ymgynghori pellach, ac ni chaiff hen gynlluniau eu diddymu cyn i'r cynlluniau newydd fod yn barod. Rwyf wedi cyhoeddi y bydd taliadau BPS yn aros yr un fath yn 2020, sy'n golygu na fyddwn yn dechrau'r broses o drosglwyddo i gynlluniau newydd tan 2021 a dim cynt. Fe wnes i'r penderfyniad hwn er mwyn rhoi mwy o sicrwydd i ffermwyr yn ystod y cyfnod ansicr hwn. Byddwn yn parhau i ystyried yr amserlen ar gyfer trosglwyddo yng ngoleuni'r ymatebion i'r ymgynghoriad. Ni waeth ym mha flwyddyn y bydd yn dechrau, fodd bynnag, rwyf yn cydnabod bod angen caniatáu amser rhesymol ar gyfer trosglwyddo fel bod ffermwyr yn cael digon o amser i addasu; ar yr un pryd, rwyf yn cydnabod na fyddai ymestyn y cyfnod hwn yn ddiangen yn fuddiol o ran ein galluogi ni i symud ymlaen a byddai'n ychwanegu at orbenion rhedeg nifer o gynlluniau ochr yn ochr.

Unwaith y nodir ffordd ymlaen o ganlyniad i'r ymgynghoriad, byddwn yn dechrau cam nesaf y gwaith manwl angenrheidiol fel ein bod yn gallu trosglwyddo'n ddidrafferth i gynlluniau newydd. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio'r gwersi a ddysgwyd wrth Ddiwygio'r PAC a rhoi Cynlluniau Datblygu Gwledig (CDG) ar waith yn flaenorol yng Nghymru er mwyn sicrhau bod y broses o drosglwyddo'n cael ei rheoli'n effeithiol. Nodaf sylwadau'r Pwyllgor ynghylch y cynnydd posib yn nifer yr ymgeiswyr ac rwyf am sicrhau'r Pwyllgor y caiff hyn ei ystyried yn llawn wrth gynllunio'r broses o drosglwyddo.

O ran adnoddau, mae llawer o adnoddau ar gael ar hyn o bryd i weinyddu gofynion PAC a CDG sy'n aml yn llethol. Mae cyfle i ddefnyddio'r adnodd hwn wrth i ni symud i ffwrdd o'r PAC a'r CDG. Yn ogystal â hynny, gwelwyd nifer o ddatblygiadau TG technegol, a hynny o ran technoleg maes ac mewn systemau rheoli o bell a gwerthuso, ers dechrau darparu ein cymorth UE presennol gyda chyflwyniad y cynlluniau Taliad Sengl ac Amaeth-amgylcheddol yn 2005. Mae'r rhain yn cynnig cyfleoedd pellach i chwilio am gynlluniau newydd i sicrhau effeithlonrwydd gweinyddol yn y dyfodol.

## Cyllid

Rwy'n rhannu pryderon y sector mewn perthynas â chyllid, yn enwedig wrth i ni adael yr Undeb Ewropeaidd. Rwyf wedi datgan sawl gwaith wrth Lywodraeth y DU na all Cymru golli unrhyw arian, a hynny'n unol â'r addewid a wnaed cyn y refferendwm ar ymadael â'r UE.

Rwy'n falch bod y broses o adolygu dyraniadau cyllid cydgyfeirio o fewn y DU wedi dechrau ym mis Ionawr, ac rwyf yn croesawu'n fawr ei nodau. Felly, rwy'n gweithio'n agos gyda'n henwebai, Rebecca Williams. Enwebais Rebecca am fod ganddi'r sgiliau priodol ar gyfer y swydd, a bydd hi'n gweithredu'n annibynnol ar y CLA. Mae hi'n deall anghenion fferm y teulu ac - ar ôl cael profiad o weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru - mae ganddi ddealltwriaeth wych o'r sefyllfa wleidyddol a datganoli. Hefyd, bydd cefnogaeth Llywodraeth Cymru o'i chwmpas yn amddiffyn ei gallu i barhau i fod yn annibynnol.

Yng nghyd-destun gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'r adolygiad hwn yn gyfle pwysig i ddatblygu arferion da ar gyfer gweithio gyda'n gilydd fel pedair gwlad gyfansoddol a phedair Llywodraeth, gyda Chymru yn chwarae rhan lawn a gweithredol.

Cofion,



**Lesley Griffiths AC/AM**
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
Minister for Environment, Energy and Rural Affairs